
**Cylch Gorchwyl ar gyfer:
Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol**

Cymeradwywyd gan Fwrdd Ofcom 13 Tachwedd 2018

1. Rhwymedigaethau statudol

- 1.1 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu a chynnal Pwyllgorau Cyngori ar gyfer y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig¹. Mae Adran 20 o'r Ddeddf yn mynnu bod "pob un o'r Pwyllgorau yn cynnwys Cadeirydd a benodwyd gan Ofcom ac aelodau eraill a benodir gan Ofcom fel y gwêl yn briodol". Swyddogaeth y Pwyllgorau "fydd rhoi cyngor i Ofcom (gan gynnwys Pwyllgorau eraill a sefydlwyd gan Ofcom) am ddiddordebau a safbwyntiau, mewn perthynas â materion cyfathrebu, y bobl sy'n byw yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor." Gall y Pwyllgorau hefyd, ar gais y panel defnyddwyr, ddarparu cyngor am y diddordebau a'r safbwyntiau hynny i'r Panel Defnyddwyr, ond ddim ond gyda chaniatâd Ofcom,
- 1.2 Wrth benodi aelodau o Bwyllgorau Cyngori, mae'n ofynnol i Ofcom, dan y Ddeddf i sicrhau bod Aelodau'n "gallu cynrychioli diddordebau a barn, mewn perthynas â materion cyfathrebu, y bobl sy'n byw yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor".
- 1.3 Ystyr "materion cyfathrebu" yn yr Adran hon yw'r rhai a nodwyd yn adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

2. Cylch Gwaith Pwyllgorau Cyngori

- 2.1 Prif dasg pob Pwyllgor Cyngori yw canfod yr agweddau hynny o waith presennol Ofcom, a chyfathrebiadau yn gyffredinol sydd o bwysigrwydd arbennig i ranbarthau a chymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig, a gweithio gyda Gweithrediaeth Ofcom ar y pynciau hyn. Dylai'r Pwyllgorau hefyd fod yn barod i ymateb i geisiadau penodol o ran ymgynghori gan Ofcom ar faterion lle y bydd persbectif gwlad benodol yn werthfawr.
- 2.2 Cylch gwaith pob Pwyllgor Cyngori fydd:
 - ceisio canfod materion sy'n effeithio ar y sector cyfathrebiadau yn ei ran ef o'r Deyrnas Unedig;
 - darparu cyngor i Ofcom am faterion cyffredinol a phenodol sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebu a gyfyd yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor;
 - darparu cyngor a sylwadau fel sy'n ofynnol ar faterion a ddygir gerbron y Pwyllgorau gan Ofcom;
 - cynnig sylwadau fel sy'n briodol ar ymgynghoriadau a gynhelir gan Ofcom;
 - pan dderbynnir cais gan y Bwrdd Cynnwys, darparu cyngor penodol i'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â theledu, radio a chynnwys arall mewn gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom;
 - os gwneir cais gan y Panel Defnyddwyr, darparu cyngor ffurfiol i'r Panel ar faterion yn y sector cyfathrebiadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor;

¹ Ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

- darparu cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor;
- rhoi cyngor ar unrhyw adroddiad blynyddol sy'n berthnasol ac yn ymdrin â materion yn y sector cyfathrebu yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor.

3. Gweithrediad y Pwyllgorau Cyngori

3.1 Caiff y Pwyllgorau eu gweithredu fel y bydd:

- y Pwyllgorau yn cynnwys hyd at naw Aelod ar unrhyw adeg oni chytunir fel arall gan Fwrdd Ofcom;
- bydd hanner cyfanswm nifer yr holl Aelodau (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf) yn gworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod;
- Caniateir presenoldeb aelodau dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo i ddibenion pennu cworwm;
- Bydd agenda ffurfiol a phapurau, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu dosbarthu'n electronig i'r holl Aelodau o leiaf dri diwrnod gwaith cyn dyddiad y Cyfarfod;
- Pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol, gellir cynnal y busnes drwy gyfathrebiadau electronig, gan gynnwys e-bost;
- bydd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Pwyllgor sydd wedi ei benodi gan Ofcom. Bydd Cyfarwyddwyr Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ynghyd â chydweithwyr eraill yn cefnogi gwaith eu Pwyllgor penodol hwy;
- bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf dair gwaith a ddim mwy na phum gwaith y flwyddyn. Caiff Aelodau ymgysylltu â chydweithwyr Ofcom rhwng cyfarfodydd lle bo hynny'n briodol;
- mae gwahoddiad sefydlog i Aelodau Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Cyngori ar gyfer eu rhan hwy o'r Deyrnas Unedig. Caiff Aelodau Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr fod yn bresennol yn y Pwyllgor Cyngori fel arsyllwyr. Er bod croeso iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau, neu i roi eu barn eu hunain, nid ydynt yn rhan o'r Pwyllgorau ac o'r herwydd, ac nid ydynt yn rhwym wrth safbwyntiau'r Pwyllgorau Cyngori;
- bydd agendâu'n cael eu paratoi gan Gadeirydd pob Pwyllgor, mewn cydweithrediad â Chyfarwyddwr perthnasol Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru, gyda gwahoddiad i unrhyw Aelod o'u Pwyllgor Cyngori gyflwyno materion i'w cynnwys ar yr agenda;
- bydd cofnodion ffurfiol yn cael eu cadw o holl gyfarfodydd y Pwyllgor Cyngori. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor, bydd nodyn o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom;
- bydd cofnodion pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyngori yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Ofcom ar gyfer eu nodi. Bydd eitemau ar gyfer sylw'r Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr neu Weithrediaeth Ofcom yn cael eu cyfathrebu gan Gyfarwyddwr perthnasol Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru. Caiff Aelodau'r Bwrdd Cynnwys a'r Panel

Defnyddwyr ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru hefyd ystyried trafodaethau'r Pwyllgorau Cynghori yng nghyfarfodydd y cyrff hynny;

- caiff safbwyntiau'r Pwyllgorau Cynghori hefyd eu cyfathrebu fel bo'n briodol i Ofcom drwy gyflwyniadau penodol a / neu lythyrau gan Gadeirydd y Pwyllgor.

3.2 Efallai y gofynnir i Aelodau'r Pwyllgorau am eu safbwyntiau a'u cyngor gan Aelodau unigol o'r Panel Defnyddwyr. Dylid anfon copi o geisiadau o'r fath er gwybodaeth i Gyfarwyddwr perthnasol Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru. Pan fydd y Panel Defnyddwyr yn awyddus i dderbyn ymateb ffurfiol gan Bwyllgor Cynghori, bydd ceisiadau'n cael eu gwneud drwy gydlynnydd y Pwyllgor Cynghori.

3.3 Bydd y Pwyllgorau Cynghori ar gyfer gwahanol rannau'r Deyrnas Unedig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion a datblygiadau o fewn Ofcom yn gyffredinol, naill ai drwy bapurau ffurfiol a gaiff eu paratoi a'u cyflwyno i'r Pwyllgorau ymlaen llaw neu drwy gyflwyniadau gan swyddogion gweithredol Ofcom mewn cyfarfodydd. Bydd hawl gan Aelodau'r Pwyllgorau, drwy'r Cadeirydd, i wneud cais am wybodaeth o'r fath ar unrhyw bwnc o fewn cylch gwaith Ofcom.